



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Cefndir

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun sydd wedi eu paratoi er mwyn darparu gwybodaeth fanylach ac i egluro'r modd y mae'r cynllun yn ymdrin â gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd y papur hwn yn rhoi sylw penodol i'r iaith Gymraeg a diwylliant. Bydd yn egluro'r wybodaeth gefndirol sydd o gymorth wrth adnabod materion, amcanion ac opsiynau y ddogfen Cynllun Adnau.

Y Cynllun Adnau yw'r ail gam statudol paratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Mae'r CDLI ar y Cyd yn siapio twf cymunedau o fewn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r dyfodol, a bydd yn nodi'r polisiau a'r dynodiadau tir fydd yn sail i asesu ceisiadau cynllunio.

Bydd y Cynllun Adnau'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi arolygydd annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Os bydd yr arolygydd yn ystyried bod y Cynllun yn un cadarn bydd yn argymhell ei fabwysiadu. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLI ar y Cyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Chynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Gellir darllen y papur testun hwn ar wahân neu ar y cyd â'r Papurau Testun a'r Papurau Cefndir eraill a baratowyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Fe ellir cyfeirio tuag at y Papur Testun fel sail i unrhyw sylwadau ar y Cynllun Adnau. Fodd bynnag fe ddylid sylweddoli mae dim ond sylwadau ar y Cynllun Adnau fydd yn cael ei ystyried gan yr Arolygydd yn ystod Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun yn hytrach na sylwadau penodol ar y Papur Testun.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen trafod unrhyw rhan o'r Papurau Testun neu Papurau Cefndir efo aelod o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fe ellwch gysylltu efo ni-ar e-bost i neu'n ysgrifenedig at:

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) / Joint Planning Policy Unit
Llawr 1af Swyddfa Cyngor Dinas Bangor / 1st Floor Bangor City Council Offices
Bangor
LL57 1DT

01286 685003 neu 01766 771000

polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD	4
2. CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO	4
Cyd-destun Polisi Cynllunio	4
Cyd-destun Polisi Cynllunio Lleol	7
3. YR IAITH GYMRAEG HEDDIW – TUEDDIADAU PRESENNOL	9
Trosolwg Cenedlaethol	9
Trosolwg Lleol – Ardal Cynllunio Lleol Gwynedd	9
Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn	19
4. FFACTORAU SY’N DYLANWADU AR YR IAITH GYMRAEG	29
Newid Demograffeg	29
Datblygiad Economaidd	29
Addysg Ddwylieithog	30
Darpariaeth Tai	30
Gweithgareddau Cymunedol	31

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Bwriad y papur hwn yw amlinellu sut gall y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant yng Ngwynedd (y tuallan i Barc Cenedlaethol Eryri) ac Ynys Môn.
- 1.2 Bydd y papur hwn yn amlinellu:
 - i) **Sefyllfa bresennol** yr iaith Gymraeg a diwylliant yng Ngwynedd ac Ynys Môn;
 - ii) Y **cyd-destun polisi** o ran yr iaith Gymraeg a diwylliant ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n dylanwadu ar yr iaith ac yn effeithio arni;
 - iii) Y **materion allweddol** sy'n wynebu'r iaith Gymraeg a diwylliant;
 - iv) Yr **ystyriaethau allweddol** i'r CDLI o ran yr iaith Gymraeg.

2. CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO

- 2.1 Mae'r iaith Gymraeg yn elfen annatod o wead cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac mae'n adlewyrchiad o'u traddodiadau a'u diwylliant. I sicrhau bod cymunedau'n datblygu mewn ffordd gynaliadwy, mae'n hanfodol, wrth ystyried unrhyw newidiadau, ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar y sefyllfa a bod y datblygiad newydd sy'n cael ei gynllunio yn briodol a pherthnasol. Mae'r broses gynllunio gwlad a thref yn rheoleiddio datblygiadau newydd ac felly mae'n un elfen bwysig wrth siapio newid mewn cymdeithas.

Cyd-destun Polisi Cynllunio Cenedlaethol

- 2.2 Ers cyhoeddi Cylchlythyr 53/88 yn 1998, mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth gynllunio bwysig wrth greu polisiâu defnydd tir ac yn y broses gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.
- 2.3 Ar hyn o bryd, mae **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 7)** yn nodi polisiâu defnydd tir Llywodraeth Cymru (LIC), ac mae'r rhain wedi'u hategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (NCT). Mae hyn yn darparu fframwaith ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a'r cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau sydd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar yr iaith Gymraeg wedi'i nodi yn Adran 4.13 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) ac mae wedi'i gefnogi gan **Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20, Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio (2013)**, sy'n rhoi canllawiau pellach ar sut ddylai awdurdodau cynllunio lleol, wrth gynhyrchu cynlluniau neu wneud penderfyniadau cynllunio, ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg, ac wrth wneud hynny, gyfrannu at les yr iaith.
- 2.4 Yn ôl PCC (2014) dylai'r system gynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg ac wrth wneud hynny gall gyfrannu at ei lles. Noda PCC y bydd lles yr iaith yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu.

- 2.5 Wrth gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer tai newydd, nodir fod rhaid i'r awdurdod cynllunio ystyried gallu'r ardal dan sylw o ran ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) i ymdopi â mwy o dai.
- 2.6 Mewn partneriaeth â'r gymuned, gan gynnwys y sector preifat, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisiau i gwrdd â'r heriau a'r amgylchiadau hynny sy'n benodol i fannau neilltuol yn eu hardaloedd. Os oes angen i'r polisiau hyn wro o'r polisiau cenedlaethol er mwyn diwallu **anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored** (na chyfyngir fel rheol ar feddiannaeth), bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gyfiawnhau'r gwriad hwnnw yn ofalus gyda thystiolaeth gadarn sydd, yn eu barn hwy, yn briodol. Gallai'r cyfiawnhad fod yn ymwneud, er enghraifft, â chyflenwad tir, effeithiau amgylcheddol neu gymdeithasol, neu gyfuniad o ffactorau.
- 2.7 Nodir fod tai fforddiadwy yn elfen hanfodol o adfywio cymunedol a chryfhau cynhwysiant cymdeithasol. Yn nhermau cynllunio, gall fod yn ddymunol i ddatblygiadau tai newydd mewn ardaloedd trefol a gwledig gynnwys cyfuniad a chydbwysedd rhesymol o fathau a meintiau o dai er mwyn bodloni pob math o anghenion tai ac er mwyn helpu i ddatblygu cymunedau cynaliadwy.
- 2.8 Wrth benderfynu ar geisiadau am dai newydd, nodir y dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau nad yw'r datblygiad arfaethedig yn difrodi cymeriad ac amwynder ardal. Mae cynyddu dwysedd yn helpu i warchod adnoddau tir a gall dylunio da drechu effeithiau andwyol, ond os cynigir dwyseddau uchel dylid ystyried amwynder y cynllun a'r eiddo cyfagos yn ofalus iawn.
- 2.9 Dylai fod yn nod darparu ar gyfer datblygu tai sydd wedi eu dosbarthu'n eang a gwneud hynny fesul cyfnod gan gymryd i ystyriaeth allu'r gwahanol ardaloedd a'r cymunedau i gymhathu'r datblygiad heb erydu safle'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, pwysleisir na ddylai polisiau geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli pwy sy'n byw yn y tai am resymau ieithyddol.
- 2.10 Mae'n bwysig felly fod angen mabwysiadu dulliau polisi amrywiol ar gyfer gwahanol ardaloedd, yn ddibynnol ar gyflwr yr iaith yn yr ardaloedd hynny.
- 2.11 Ar 13 Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) "**Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg**" (NCT 20). Mae'r NCT 20 yn rhoi arweiniad ynghylch rôl y system gynllunio o ran cefnogi'r iaith Gymraeg pan fo Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu paratoi a phan wneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'r NCT yn rhoi arweiniad penodol ar sut i asesu pa anheddau / ardaloedd all ymdopi orau â datblygiad yn seiliedig ar yr effaith ieithyddol.
- 2.12 Mae Diweddariad **2008 o Gynllun Gofodol Cymru** yn adnabod y rôl bwysig sydd gan y Gymraeg i'w chwarae yn ein cymunedau gan nodi ei bod yn bwysig ei hyrwyddo. Nodir bydd datblygu Ardal y Cynllun Gofodol yn unol â gweledigaeth Iaith Pawb o greu cymdeithas ddwyieithog fodern yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r weledigaeth ar gyfer gogledd-orllewin Cymru yn ceisio cynnal ymdeimlad o le a chynnal a hyrwyddo'r diwylliant, y dreftadaeth, a'r iaith Gymraeg.

- 2.13 Nodir fod yr ymdeimlad cryf o le yn amlwg ledled Gogledd-orllewin Cymru, o ran y dirwedd a'r nifer uchel o gymunedau Cymraeg eu hiaith. Er hynny, mae'r hunaniaeth ddiwylliannol hon yn wynebu her o bwysau diwylliannol byd-eang a newid demograffig, yn enwedig gan mai ei hymdeimlad o le yw un o'r prif ffactorau sy'n gwneud yr Ardal yn ddeniadol i ymwelwyr a phobl sy'n symud yno'n barhaol. Yr her felly yw cadw a gwella'r ymdeimlad o le, a mynd ati ar yr un pryd â'r newid angenrheidiol i gynnal cyflogaeth a gwasanaethau.
- 2.14 Cydnabyddir fod yr iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd yng Ngogledd-orllewin Cymru. Yn yr Ardal hon y ceir y ganran uchaf o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru gyfan. Mae'r rhanbarth ar flaen y gad o ran gweledigaeth Iaith Pawb o greu cymdeithas fodern ddwyieithog sy'n seiliedig ar ddiogelu a hyrwyddo gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.15 Nodir mai un blaenoriaeth ar gyfer addysg a sgiliau yng Nghanol Cymru yw cynyddu argaeledd a'r nifer sy'n manteisio ar y dysgu a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog a hyrwyddo gweithlu Cymraeg ei iaith. Nodir fod gan y Gymraeg rôl allweddol i'w chwarae yng nghymunedau Canol Cymru a dylid hybu'r iaith fel nodwedd bositif o'r Ardal. Un fl aenoriaeth allweddol fydd datblygu'r Ardal yn unol â gweledigaeth Iaith Pawb o greu cymdeithas ddwyieithog, fodern.
- 2.16 Yn ogystal yn 2003, oherwydd problemau â defnyddio Canllawiau Cenedlaethol, comisiynodd 16 awdurdod lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yr *Home Builders Federation* a'r Cynulliad y *Bartlett School of Planning*, Coleg y Brifysgol, Llundain (UCL), i ganfod dulliau penodol o weithredu'r canllawiau cenedlaethol. Roedd prif ganfyddiadau'r gwaith hwn fel a ganlyn:
- Dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio Pecyn Adnoddau Creu Proffil Ieithyddol wrth ddatblygu polisiau i asesu p'un a yw'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymunedau yn eu hardal.
 - Dylid defnyddio methodoleg i Asesu'r Effaith ar iaith fel y gall awdurdodau cynllunio lleol asesu'r effaith debygol ar unrhyw gynigion datblygu yn erbyn pum dimensiwn bywyd cymunedol.
- 2.17 Lluniwyd Is-grŵp Cynllunio i ddatblygu agweddau ymarferol gwaith UCL, ac arweiniodd hyn at gyhoeddi'r adroddiad "**Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005).**" Er na chafodd y ddogfen ei mabwysiadu'n ffurfiol fel rhan o bolisi cenedlaethol a'r system ganllawiau, cydnabyddir mai 'Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)' yw'r unig fath o ganllaw ar y modd y dylid ymgymryd ag Asesiad Effaith Ieithyddol. Mae'r ddogfen hon wedi dylanwadu'r broses o greu Canllawiau Cynllunio Atodol "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg" Ynys Môn a Gwynedd fel ei gilydd.
- 2.18 **Iaith Fyw: Iaith Byw** yw **Strategaeth Iaith Gymraeg** newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru. Mae hon yn strategaeth ar gyfer pum mlynedd, o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2017, ac yn disodli Iaith Pawb a gyhoeddwyd yn 2003. Mae dwy elfen graidd i'r strategaeth. Yn gyntaf, drwy fesurau i alluogi ac annog plant a phobl eraill i gaffael yr iaith, fel annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref a sicrhau twf pellach mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ail, drwy fesurau i alluogi ac annog pobl i ddefnyddio'r iaith yn feunyddiol, fel creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Cymraeg yn gymdeithasol.

Cyd-destun Polisi Cynllunio Lleol

- 2.19 Yn lleol, darperir cyngor ym mholisi A2 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd** – “Gwarchod gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol cymunedau.” Noda’r polisi:-
- “Gwrthodir cynigion a fyddai’n achosi niwed arwyddocaol i wead cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau oherwydd eu maint, eu graddfa neu eu lleoliad”.*
- 2.20 Mae’r polisi uchod yn pwysleisio’r angen i warchod cymunedau lleol a’r iaith Gymraeg, cyhyd ag y bo modd, drwy’r broses gynllunio gwlad a thref.
- 2.21 Yng **Nghynllun Lleol Ynys Môn (1996)**, mae dyfodol yr iaith Gymraeg yn cael ei gydnabod fel un o’r Materion Cynllunio Allweddol ac mae diwylliant ac iaith nodedig yn cael ei adnabod fel un o gryfderau’r ynys.
- 2.22 Yng **Nghynllun Datblygu Unedol (CDU) Ynys Môn (2005)** y rhoddwyd y gorau iddo, roedd yr iaith a’r diwylliant unigryw yn cael ei adnabod fel un o’r materion allweddol ac un o nodau’r cynllun oedd diogelu a hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’i diwylliant. Mae’r polisi ar iaith a diwylliant yn rhan un y cynllun yn cyfeirio at y ffaith y bydd yr iaith Gymraeg a’i diwylliant yn cael eu hyrwyddo a’u diogelu drwy ganiatáu datblygiadau fydd yn gymorth i gyfnerthu’r cymunedau ble mae’r iaith Gymraeg yn rhan o gyfansoddiad cymdeithasol y gymuned. Yn ogystal, mae’n nodi na fydd datblygiadau’n cael eu caniatáu os byddant yn cael effaith andwyol sylweddol ar y defnydd a wneir o’r iaith Gymraeg mewn gymuned.
- 2.23 Mae **Strategaeth Dai Leol Ynys Môn (2014-19)** yn ystyried swyddogaeth strategol y Cyngor mewn perthynas â thai, a’r berthynas rhwng hynny ac amcanion corfforaethol a strategaethau eraill e.e. yn y meysydd addysg, adfywio economaidd, iechyd a’r strategaeth gymunedol. Un o flaenoriaethau’r strategaeth yw cynyddu cynyddu nifer y tai fforddiadwy a’r dewis sydd ar gael, gan ganolbwyntio ar y ddarpariaeth rhentu cymdeithasol. Yng Ngwynedd, mae’r **Strategaeth Tai (2013-2017)** yn adnabod yr angen I sicrhau cyflenwad digonol, o stoc dai fforddiadwy addas i gwrdd ag anghenion newidiol y boblogaeth. Mae’n amcanu i wella cynaliadwyedd cymunedau o fewn y sir drwy sicrhau bod tai yn chwarae rôl allweddol mewn adfywio cymunedau. Nodir ei bod yn bwysig hyrwyddo a phrif ffrydio cynllunio’r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o’r Strategaeth.
- 2.24 Mae **Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn** a Gwynedd yn ymgorffori gweledigaeth a chynllun gweithredu’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer y ddwy sir. Diben y Cynllun yw gweithio ynghyd er mwyn gwella ein lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dros y 12 mlynedd nesaf. Un o’i egwyddorion yw hybu’r iaith Gymraeg ar draws y sir a cheisio sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog. Er mwyn gwneud hyn, noda’r strategaeth fod angen gwerthfawrogi, hyrwyddo a chryfhau presenoldeb yr iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig mewn bywyd bob dydd a chofleidio’r amrywiaeth mewn cymdeithas.

- 2.25 Yn ogystal â'r uchod, mae diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni oddi fewn ac oddi allan i'r Cyngor yn un o amcanion strategol y ddaug Gyngor.
- 2.27 Drwy ddadansoddi'r canllawiau cynllunio cyfredol, mae'r goblygiadau yng nghyd-destun asesiad effaith ieithyddol fel a ganlyn:

- Mae lles yr iaith Gymraeg yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffeg, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn.
- Cydnabyddiaeth nad penderfyniadau cynllunio ar ddefnydd tir sy'n gwbl gyfrifol am sefyllfa'r iaith yn y dyfodol a bod gan ffactorau economaidd, addysgol a diwylliannol ran i'w chwarae yn ogystal.
- Bod angen ystyried pa ffactorau ddylid eu hystyried o ran gallu ardaloedd gwahanol i gynnal datblygiadau.
- Mae angen ystyried sicrhau fod datblygiad yr iaith yn ychwanegu at ddatblygiad yr economi ac i'r gwrthwyneb.
- Os bydd y CDLI ar y Cyd yn nodi canolfannau twf, yna rhaid rhoi ystyriaeth berthnasol i raddfa, cyfnod ac amseru unrhyw ddatblygiadau a glustnodir yn y cynllun.
- Rhaid sicrhau nad yw polisiâu'r cynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol.
- Rhaid cydnabod mai dim ond rhan fechan all y CDLI ei chwarae o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- Mae'n rhaid i unrhyw gynnig, ble bo unrhyw bosibilrwydd o ddifrod i lês yr iaith Gymraeg ddangos mewn asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.
- Mae angen gwerthfawrogi, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a chofleidio'r amrywiaeth mewn cymdeithas.
- Mewn cymunedau ble roedd dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 2001, dylid ystyried p'un a ddylid rhoi mwy o bwyslais ar warchod yr iaith yn y cymunedau hyn ai peidio.
- Wrth nodi bod iaith Pawb yn pwysleisio pwysigrwydd cymunedau ble mae dros 70% yn siarad Cymraeg, rhaid i'r asesiad adnabod pwysigrwydd yr iaith ym mhob cymuned yn Ynys Môn a Gwynedd.

3. YR IAITH GYMRAEG HEDDIW – TUEDDIADAU PRESENNOL

- 3.1 Mae'r rhannau sy'n dilyn yn cynnwys gwybodaeth o'r Cyfrifiad. Gan nad yw data o Gyfrifiad 2011, sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg, wedi ei ryddhau i gyd, nid yw wedi bod yn bosib rhoi darlun cyfoes o'r iaith Gymraeg ym mhob achos. Pan ddaw'r data hwn ar gael, bwriedir diweddarau'r bennod hon.

Trosolwg Cenedlaethol

- 3.2 Ar ddechrau'r 20fed ganrif, roedd bron i hanenr poblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg. Cofnododd Cyfrifiad 1911 fod bron i filiwn o bobl yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, gostyngodd y gyfran o siaradwyr Cymraeg drwy'r Ugeinfed Ganrif.
- 3.3 Gostyngodd nifer siaradwyr Cymraeg yng Nghymru o 20.8% ym 1971 i 19% ym 1981 ac yna i 18.7% ym 1991. Erbyn 2001, fodd bynnag, roedd y cyfran wedi codi i 20.8% unwaith eto. Fodd bynnag, tra bo Cymru gyfan wedi gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg rhwng 1991 a 2001, fe welodd Gwynedd ostyngiad o -3.1% dros yr un cyfnod. Rhwng 2001 a 2011, disgynnodd nifer siaradwyr Cymraeg yng Nghymru -3.5% ymhellach.
- 3.4 Mae nifer a chryfder y cymunedau sy'n defnyddio'r Gymraeg yn bennaf wedi lleihau dros y degawdau diwethaf ac fe gollwyd nifer o gymunedau a fu bron yn gwbl Cymraeg eu hiaith. Mae'r rhesymau dros y dirywiad yn cynnwys:

- diffyg gwaith a chyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc a fagwyd yn lleol a'r rheini'n symud i ffwrdd o ganlyniad;
- dirywiad yn y diwydiannau traddodiadol oedd yn cyflogi cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg ynghyd â phroblemau'r economi wledig;
- y mewnfudiad o'r di-Gymraeg yn bennaf i'r ardaloedd mwy gwledig ac arfordirol atyniadol.

Trosolwg Lleol - Ardal Cynllunio Lleol Gwynedd

- 3.5 Gwynedd sydd â'r ganran uchaf o bobl sy'n medru siarad Cymraeg drwy Gymru. Yn 2011, roedd 65.4% o boblogaeth Gwynedd dros dair blwydd oed yn medru siarad Cymraeg ac roedd hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 19%.

Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg (2011)

	Poblogaeth dros dair blwydd oed	Siarad Cymraeg ond nid yn ei darllen na'i hysgrifennu	Siarad a darllen Cymraeg ond nid yn ei hysgrifennu	Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	Cyfuniad arall o sgiliau	Dim gwybodaeth o'r Gymraeg
		%	%	%	%	%
Gwynedd	117,789	5.8	3.4	56	1.51	26.5
Cymru	2,955,841	2.7	1.5	14.6	2.5	73.3

- 3.6 Dengys y tabl isod bod nifer y bobl yng Ngwynedd sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng o 84% yn 1971 i 72.1% yn 1991 ac i 69% yn 2001. Wrth i Gymru yn gyffredinol weld cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2001, bu gostyngiad o -3.1% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd. Fodd bynnag, fe welodd Gwynedd a Cymru ostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011.

**Newidiadau yn y % o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd a Chymru
1981 - 2011**


Blwyddyn	Gwynedd	Cymru
1951	93,184 (81.2%)	714,700 (28.9%)
1961	87,547 (80.4%)	656,000 (26.0%)
1971	88,340 (84%)	542,400 (20.8%)
1981	78,032 (68%)	508,200 (18.9%)
1991	78,733 (72.1%)	500,000 (18.5%)
2001	77,846 (69.0%)	582,368 (20.7%)
2011	77,000 (65.4%)	562,016 (19%)

- 3.7 Ar nodyn fwy cadarnhaol am y Gymraeg yng Ngwynedd, yw'r ffaith bod oddeutu 83% o siaradwyr Cymraeg y sir yn rhugl – y ganran uchaf o holl siroedd Cymru. Dengys Arolygon Defnydd Iaith 2004-2006, bwrdd yr Iaith Gymraeg fod 90% o siaradwyr rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd – y ganran uchaf o holl siroedd Cymru.

Daearyddiaeth Siaradwyr Cymraeg

- 3.8 Mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn amrywio cryn lawer o fewn Gwynedd. Mae siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli o leiaf 30% o'r boblogaeth barhaol ym mhob ward heblaw dau yng Ngwynedd (yr eithriad yw ward Menai (18.6%) a Deiniol (22.8%) ym Mangor, o bosib oherwydd nifer y myfyrwyr yn yr ardaloedd hynny. Ceir y cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghaernarfon a'r cyffiniau. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod yn uwch mewn rhai ardaloedd trefol yn ogystal ag ardaloedd y cyn chwareli llechi, ond yn sylweddol is mewn llawer o ardaloedd arfordirol ym Meirionnydd.

% Siaradwyr Cymraeg yn wardiau Gwynedd (2011)




Newidynnau daearyddol yng nghyfran yr laith Gymraeg (2011)

Ward	% y boblogaeth 3 blwydd oed a throsodd sy'n medru siarad Cymraeg
Uchaf	Llanrug (87.8)
Ail Uchaf	Peblig (Caernarfon) (87.4)
Trydydd Uchaf	Penygroes (86.8)
Trydydd Isaf	Garth (30.4)
Ail isaf	Deiniol (22.8)
Isaf	Menai Bangor (18.6)
Gwynedd	65.4
Cymru	19

- 3.9 Yn ogystal â hyn, rhwng 1991 a 2001, bu gostyngiad yn nifer y wardiau yng Ngwynedd gyda dros 70% o'r boblogaeth yn medru siarad Cymraeg, o 61 ward yn 1991, i 41 ward yn 2001 ac yna i 40 yn 2011. Mae'r ffigwr isod yn cymharu'r newidiadau a welwyd yn wardiau unigol y Sir rhwng 2001 a 2011.

% newid yn y boblogaeth tair blwydd oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg, 2001 - 2011




- 3.10 Gwelir bod cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng mewn sawl ardal rhwng 2001 a 2011, yn enwedig yn ardal Bangor ac ardaloedd eang ar hyd arfordir Meirionydd. Yn ardal Bangor, gwelwyd gostyngiadau yn Deiniol (-24.8%), Garth (-33.4%), Hirael (-27.2%) a Menai (Bangor) (-31.8%). Fodd bynnag, dylid cofio gall fod symudiad yn y boblogaeth myfyrwyr wedi cael dylanwad ar y ffigyrau hyn. Gwelwyd gostyngiadau arwyddocaol eraill yn wardiau Gorllewin Porthmadog (-11.3%), Abersoch (-12.4%) ac Aberdyfi (-14.5%). Ar y llaw arall fe welodd nifer o ardaloedd (yn enwedig ardaloedd sy'n draddodiadol bwysig o ran y Gymraeg) gynnydd yng nghanran siaradwyr Cymraeg, yn enwedig, felly, Clynnog (10.2%), Waunfawr (5.5%) ac Arllechwedd (3.7%).
- 3.11 Mae oddeutu 80% o drigolion Gwynedd a aned yng Nghymru yn medru siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg, ac nid oes gan 5% o'r trigolion a aned yng Nghymru unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o gwbl. Mae llai o drigolion a aned y tu allan i Gymru yn medru siarad Cymraeg ac mae hyn yn amrywio mwy gydag oedran. Nid oes gan 16.5% o'r bobl rhwng 3 a 15 mlwydd oed unrhyw sgiliau yn yr iaith Gymraeg, ac mae hyn yn cynyddu i 79% o'r trigolion sydd dros 65 mlwydd oed. Awgryma hyn fod mewnfydwyr di-Gymraeg yn gallu cael effaith andwyol ar yr iaith.

% y boblogaeth 3 blwydd oed a throsodd sy'n medru siarad Cymraeg

Ward	% y boblogaeth 3 blwydd oed a throsodd sy'n medru siarad Cymraeg
Uchaf	Bethel (40.2)
Ail Uchaf	Llanrug (37.6)
Trydydd Uchaf	Penygroes (37.1)
Trydydd Isaf	Garth (7.9)
Ail isaf	Deiniol (6.1)
Isaf	Menai (Bangor) 4.6
Gwynedd	20.4
Cymru	8

3.12 Mae cyfrannau uchel o bobl a aned y tu allan i Gymru nad ydynt yn medru siarad Cymraeg yn byw ar arfordir Meirionnydd, yn ninas Bangor ac mewn rhannau helaeth o Ben Llŷn. Mae'r map isod yn dangos y wardiau hynny sydd o fewn y chwarterel isaf o ran siaradwyr Cymraeg yn ogystal â bod o fewn y chwarterel uchaf o ran y boblogaeth sydd wedi eu geni y tu allan i Gymru.

Wardiau yng Ngwynedd sydd o fewn y chwarterel isaf o ran siaradwyr Cymraeg yn ogystal â bod o fewn y chwarterel uchaf o ran cyfran y boblogaeth sydd wedi eu geni y tu allan i Gymru (2001).



© Hawffraint y Goron. Cyngor Gwynedd. Twydded Rhif 100023387 - 2010
© Crown Copyright. Gwynedd Council. Licence Number 100023387 - 2010

Uned Polisi a Pherfformiad, Adran Rheoleiddio - Cyngor Gwynedd
Policy and Performance Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council

1:500,000

Oedran a'r Iaith Gymraeg

- 3.13 Fel a welir yn y tabl isod, mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg Gwynedd yn y grwpiau oedran 5-15 oed. Mae'n debyg y gellir priodoli'r ffaith fod yr iaith wedi dal ei thir ac y gwelwyd cynnydd bychan yng nghanran y boblogaeth oed ysgol sydd yn gallu siarad Cymraeg i bolisiau addysg Cymraeg yn yr ysgol sydd yn golygu fod y Gymraeg yn bwnc gorfodol i blant rhwng 5 ac 16 oed yng Nghymru heblaw mewn rhai ysgolion a ganiatawyd iddynt gael eu heithrio.

Siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oed

Oed	2001 (%)	2011 (%)
3 – 4	70.9	73
5 – 15	91.8	92.3
16 – 19	75.8	68.6
20-24	60.1	51.4
25-39	71.2	69.1
40-49	65.4	65.5
50-59	59.4	59.9
60-64	60.4	54.4
65-74	62.8	55.6
75+	64.3	60.7


Fynhonnell: Cyfrifiad

- 3.14 Gweler hefyd fod gostyngiad sylweddol wedi digwydd yng nghanran y boblogaeth dros 60 mlwydd oed sydd yn siaradwyr Cymraeg. Awgryma hyn fod mewnfudiad o bobl hŷn di-Gymraeg wedi digwydd yn y Sir.

Newid Demograffig a'r Iaith Gymraeg

- 3.15 Mae amrywiaeth mawr o ran y canran o fewnfudwyr i wahanol ardaloedd sydd ddim yn siarad Cymraeg. Ardal Bangor ac ardaloedd ar hyd arfordir Meirionnydd sydd fwyaf tebygol o weld mewnfudwyr di-Gymreig yn symud yno i fyw (Menai – Bangor (82.4%), Deiniol (81.5%), Tywyn (76.4%), Abermaw (68%)). Dengys y map isod y wardiau hynny sydd o fewn y chwarter isaf o ran cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â bod o fewn y chwarter uchaf o ran cyfran y boblogaeth sydd yn fewnfudwyr.

Wardiau yng Ngwynedd sydd o fewn y chwarter isaf o ran cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â bod o fewn y chwarter uchaf o ran cyfran y boblogaeth sydd yn fewnfudwyr.




© Hawlfraint y Goron. Cyngor Gwynedd. Trwydded Rhif 100023387 - 2010
© Crown Copyright. Gwynedd Council. Licence Number 100023387 - 2010


Uned Polisi a Pherfformiad, Adran Rheoleiddio - Cyngor Gwynedd
Policy and Performance Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council

1:500,000

- 3.16 Mae oedran yn ffactor allweddol o safbwynt ymfudo i Gymru. Dengys Arolygon Defnydd Iaith, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, o'r mewnfudwyr o dan 11 oed i Gymru, roedd 33% yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd hyn yn cymharu â 14% o'r siaradwyr oedd yn 11 oed neu'n hŷn wrth iddynt ymfudo i Gymru.
- 3.17 Mae allfudo o'r Sir ar ei fwyaf amlwg yn y grwp oed 0-19. Dengys y map isod fod gostyngiad mawr wedi digwydd mewn nifer o ardaloedd yn enwedig rhai ardaloedd gwledig ac arfordirol Pen Llyn a Meirionnydd.



- 3.18 Êr fod y boblogaeth rhwng 20-34 wedi cynyddu 2.4% rhwng 2001-2010, fel a welir yn y map isod, mae gostyngiad wedi digwydd yng nghanran y boblogaeth rhwng 20-34 mewn rhannau helaeth o Wynedd, yn enwedig, felly yn ardaloedd gwledig ac arfordirol ym Mhen Llŷn e.e. Botwnnog (-22%), Abersoch (-36.5%), Abererch (-24.4%) Awgryma hyn, fod pobl yn y grŵp oedran hwn yn allfudo oherwydd prinder cyfleoedd economaidd a chymdeithasol yn yr ardaloedd hyn.
- 3.19 Mae'r grŵp yma yn debygol o fod yn deuluoedd ifanc a phobl ifanc broffesiynol. O ganlyniad i Bolisi Addysg Gwynedd, gellir tybio fod llawer iawn o bobl ifanc sydd yn mudo allan o Wynedd yn meddu ar wybodaeth a sgiliau yn y Gymraeg, er nad oes data ar gael i gadarnhau hynny.



Cymraeg yn y Cartref

- 3.20 Mae iaith rhaint yn dylanwadu ar iaith y plant. Fel a welir yn y tabl isod, pan fydd dau riant yn siarad Cymraeg yn y cartref, mae 90% o blant 3-4 oed yng Ngwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran yn gostwng i 81% mewn cartrefi gyda rhiant sengl yn siarad Cymraeg yn gostwng ymhellach i 55.7% pan fo dim ond un o ddau riant yn siarad Cymraeg; ac yn gostwng ymhellach i 31% mewn cartrefi ble nad oes siaradwyr Cymraeg.

	HOLL BLANT DROS 3 OED	PLANT SY'N SIARAD CYMRAEG (2011)							
		3 i 4		5 i 11		12 i 15		16 i 18	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Un teulu a dim eraill	18618	1856	74	7600	92	4617	93	2646	91
Aelwydydd Cwpl	14206	1478	75	5818	93	3538	94	2021	92
Dim siaradwyr Cymraeg	2250	108	33	749	72	451	79	225	71
1 oedolyn yn siarad Cymraeg	2836	269	63	1155	92	678	92	384	92
2 oedolyn yn siarad Cymraeg	8070	1067	90	3698	98	2035	98	1014	97
arall	1050	34	85	216	96	374	98	398	98
Aelwydydd un rhiant	4412	378	70	1782	91	1079	90	625	87
Dim oedolyn yn siarad Cymraeg	1236	55	38	402	78	265	76	164	73
1 oedolyn yn siarad Cymraeg	2834	318	81	1299	96	681	96	352	93
Arall	342	5	83	81	98	133	96	109	95
Aelwydydd Eraill	1308	138	64	468	88	332	88	155	84
dim oedolyn yn siarad Cymraeg	319	12	31	97	70	69	68	22	55
holl oedolion yn siarad Cymraeg	59	0	0	0	0	0	0	0	0
Arall	930	126	85	371	97	263	99	133	98

- 3.21 Yn ôl ffigyrau'r Cyfrifiad 2011, mae nifer helaeth o'r wardiau sydd â'r niferoedd uchaf o gartrefi gyda rhiant sengl yng nghadarnleoedd yr iaith Gymraeg. O ystyried bod cyfraddau trosglwyddo iaith yn sylweddol is mewn aelwydydd gyda rhiant sengl; mae'n bryderus fod niferoedd uchel o aelwydydd o'r fath yng nghadarnleoedd y Gymraeg.
- 3.22 Dengys Arolygon Defnydd Iaith 2004-2006 Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod 75% o siaradwyr Cymraeg – sy'n byw mewn cartref lle mae pawb yn siarad Cymraeg - yn rhugl. Lle nad yw pawb yn y cartref yn siarad Cymraeg, dim ond 40% o'r siaradwyr sydd yn dweud eu bod yn rhugl. Dengys yr Arolygon hefyd fod 82% o'r rhai a ddysgodd siarad Cymraeg gartref yn rhugl, mewn cymhariaeth â 34% o'r rhai ddysgodd Gymraeg yn yr ysgol.

Trosolwg Lleol – Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn

- 3.23 Yng Nghyfrifiad 2011, roedd oddeutu 57.2% o'r boblogaeth yn Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg.

Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg (2011)

	Poblogaeth dros dair blwydd oed	Siarad Cymraeg ond nid yn darllen na'i hysgrifennu	Siarad a darllen Cymraeg ond nid yn ei hysgrifennu	Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	Cyfuniad arall o sgiliau	Dim gwybodaeth o'r Gymraeg
		%	%	%	%	%
Ynys Môn	67,403	7	4.3	45.6	1.9	30.4
Cymru	2,955,841	2.7	1.5	14.6	2.5	73.3

- 3.24 Dengys y tabl isod nifer y bobl yn Ynys Môn oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi disgyn o 80% ym 1951 i 57% ym 2011.


Newidiadau yn y Nifer a'r % o Siaradwyr Cymraeg ers 1951

Blwyddyn	Ynys Môn	Cymru
1951	38,443 (80.0%)	714,700 (28.9%)
1961	37,101 (75.0%)	656,000 (26.0%)
1971	37,135 (66.0%)	542,400 (20.8%)
1981	39,229 (61.0%)	508,200 (18.9%)
1991	41,240 (61.9%)	500,000 (18.5%)
2001	38,893 (60.1%)	582,368 (20.7%)
2011	38,568 (57.2%)	562,016 (19%)

- 3.25 Er y bu dirywiad sylweddol yn y canran o'r boblogaeth sy'n medru siarad Cymraeg, mae'n ddiddorol nodi bod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn 2011 (38,568), ychydig yn uwch na'r nifer yn 1951 (38,443). Adlewyrcha hyn y twf cyffredinol ym mhoblogaeth yr ynys yn sgil datblygiadau gwaith mawr yn y 1960au, sef Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa a gwaith mwyndoddi Alwminiwm Môn.
- 3.26 Yn gydamserol â'r mewnlifiad o bobl o'r tu allan i Gymru i'r ynys, bu allfudiad o bobl ifanc yn chwilio am waith yn sgil y sylfaen economaidd gyfyngedig sy'n bodoli ar yr ynys. Bu dirywiad o oddeutu 10% yn y canran o siaradwyr Cymraeg yn genedlaethol rhwng 1951 a 1991. Fodd bynnag, rhwng 1991 a 2001 bu newid yn y duedd gyda chynnydd o dros 2% yn y canran o siaradwyr Cymraeg.
- 3.27 Yn 2001, roedd gan 10 o wardiau'r ynys dros 70% o'u poblogaeth yn medru siarad Cymraeg. Roedd nifer y wardiau ble mae dros 70% o'u poblogaeth yn medru siarad Cymraeg wedi dirywio i 8 erbyn 2011.

Daeryddiaeth Siaradwyr Cymraeg


- 3.28 Mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn amrywio yn Ynys Môn. Mae'r cyfraddau uchaf o siaradwyr Cymraeg i'w canfod yn yr ardaloedd gwledig mwyaf canolog yn Ynys Môn, tra bod y gyfradd o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod yn is tua gorllewin yr ynys, yn enwedig o amgylch ardal Caergybi.

% Siaradwyr Cymraeg yn wardiau Ynys Môn yn 2011**Newidynnau daearyddol yng nghyfran yr Iaith Gymraeg (2011)**

Ward	% y boblogaeth 3 blwydd oed a throsodd sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	% y boblogaeth 3 blwydd oed a throsodd heb ddim gwybodaeth o'r Gymraeg
Uchaf	Cyngar (80.8)	Rhosneigr (50.5)
Ail Uchaf	Tudur (80.7)	Llanbedrgoch (47.1)
Trydydd Uchaf	Cefni (80.5)	Trearddur (45.0)
Trydydd Isaf	Holyhead Town (39.1)	Cefni (13)
Ail isaf	Trearddur (38.1)	Cyngar (12.7)
Isaf	Rhosneigr (36)	Tudur (10.7)
Ynys Môn	57.2	30.4
Cymru	19	73.3

- 3.29 Mae'r ffigur isod yn cymharu'r newidiadau a welwyd yng nghymunedau'r Ynys rhwng 2001 a 2011.

Newid yng % y Siaradwyr Cymraeg yn Wardiau Ynys Môn o 2001 i 2011



3.30 Mae'r prif negeseuon o'r map uchod fel a ganlyn:


- Bu'r gostyngiad mwyaf o 13.4% yn ward Rhosneigr, er hynny, cymuned fechan yw hon felly mae newid bach yn y niferoedd yn gallu cael effaith fawr ar y canrannau.
- Dim ond 5 o'r 40 ward welodd gynnydd yng nghyfran siaradwyr Cymraeg. Gwelwyd y cynnydd mwyaf o 3.44% yn ward Cwm Cadnant. yn Llanfair-yn-Neubwll.
- Bu gostyngiad mewn tair cymuned arall (Llangoed, brynteg a Cadnant)) i lai na 50% o siaradwyr Cymraeg a golyga hyn bod 13 cymuned yn y categori hwn bellach.
- Pery 8 ward ar yr ynys ble mae dros 70% o'u poblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae mwyafrif y cymunedau hyn yng nghanol yr ynys.
- Ar gyfartaledd, bu gostyngiad o 1.5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr ynys rhwng 2001 a 2011.

% o'r boblogaeth a aned y tu allan i Gymru ac sy'n medru siarad Cymraeg (3 mlwydd oed +), 2011

Ward	% o'r boblogaeth a aned y tu allan i Gymru ac sy'n medru siarad Cymraeg (3 mlwydd oed +), 2011
Uchaf	Tudur (32.7)
Ail Uchaf	Cwm Cadnant (29.4)
Trydydd Uchaf	Llanfihangel Ysgeifiog (27.6)
Trydydd Isaf	Tref Caergybi (10.7)
Ail isaf	Trearddur (10.2)
Isaf	Rhosneigr (7.2)
Ynys Môn	17.5
Cymru	8

- 3.31 Mae'r cyfrannau uchaf o bobl a aned y tu allan i Gymru nad ydynt yn medru siarad Cymraeg yn byw yn ardal Caergybi ac mewn rhannau helaeth o Ogledd Ddwyrain yr Ynys.
- 3.32 Mae'r map isod yn dangos y wardiau hynny sydd o fewn y chwarter isaf o ran siaradwyr Cymraeg yn ogystal â bod o fewn y chwarter uchaf o ran y boblogaeth sydd wedi eu geni y tu allan i Gymru.

Wardiau yng Ngwynedd sydd o fewn y chwarter isaf o ran siaradwyr Cymraeg yn ogystal â bod o fewn y chwarter uchaf o ran cyfran y boblogaeth sydd wedi eu geni y tu allan i Gymru.



Oedran a'r Iaith Gymraeg

- 3.33 Fel a welir yn y tabl isod, mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg Ynys Môn yn y grwpiau oedran 5-15 oed. Mae'n debyg y gellir priodoli'r ffaith fod yr iaith wedi dal ei thir ac y gwelwyd cynnydd bychan yng nghanran y boblogaeth oed ysgol sydd yn gallu siarad Cymraeg i bolisiau addysg Cymraeg yn yr ysgol sydd yn golygu fod y Gymraeg yn bwnc gorfodol i blant rhwng 5 ac 16 oed yng Nghymru heblaw mewn rhai ysgolion a ganiatawyd iddynt gael eu heithrio.

Siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oed

Oed	2001 (%)	2011 (%)
3 – 4	54.5	54.1
5 – 15	77.8	80.1
16 – 19	76.8	71.3
20-24	69.8	63.9
25-39	59	60.3
40-49	55.6	53.2
50-59	51.4	50.4
60-64	52.8	46.8
65-74	54.6	47.6
75+	54.4	51.8


Ffynhonnell: Cyfrifiad(2011)

- 3.34 Nodir hefyd fod cynnydd bach wedi digwydd yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg yn y grŵp oedran 25-39 oed yng Ngwynedd. Mae hyn i'w groesawu o ystyried mai'r grŵp oedran yma sydd hefyd yn fwyaf tebygol o fagu plant a fydd yn derbyn addysg Gymraeg. Lleolir dwysedd siaradwyr Cymraeg y grŵp oedran yma yn Ne Arfon, ym Mhen Llŷn ac ym Meirionnydd wledig.
- 3.35 Gweler hefyd fod gostyngiad sylweddol wedi digwydd yng nghanran y boblogaeth dros 60 mlwydd oed sydd yn siaradwyr Cymraeg. Awgryma hyn fod mewnfudiad o bobl hŷn di-Gymraeg wedi digwydd yn y Sir.


Newid Demograffig a'r Iaith Gymraeg

- 3.36 Mae amrywiaeth mawr o ran y canran o fewnfudwyr i wahanol ardaloedd sydd ddim yn siarad Cymraeg. Dengys y map isod y wardiau hynny sydd o fewn y chwarterel isaf o ran cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â bod o fewn y chwarterel uchaf o ran cyfran y boblogaeth sydd yn fewnfudwyr. Fel a welir, ward Biwmares a wardiau yng Nghaergybi a'r cyffiniau sydd fwyaf amlwg o ran yr uchod.


Wardiau yn Ynys Môn sydd o fewn y chwarter isaf o ran cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â bod o fewn y chwarter uchaf o ran cyfran y boblogaeth sydd yn fewnfudwyr.



- 3.37 Ar y cyfan, mae'r boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng ar yr Ynys dros y degawd ddiwethaf (-4.7% rhwng 2001-2010). Dengys y map isod fod gostyngiad mawr wedi digwydd mewn rhai ardaloedd gan gynnwys Aberffraw (-14.2%), Biwmares (-14.2%), Amlwch Wledig (-16%) a Rhosneigr (-31.6%)



- 3.38 Mae allfudo ar ei fwyaf amlwg yn y grwpiau oed 20-34 yn Ynys Môn. Mae'r grŵp yma yn debygol o fod yn deuluoedd ifanc a phobl ifanc broffesiynol. O ganlyniad i Bolisi Addysg Gwynedd, gellir tybio fod llawer iawn o bobl ifanc sydd yn mudo allan o Ynys Môn yn meddu ar wybodaeth a sgiliau yn y Gymraeg, er nad oes data ar gael i gadarnhau hynny.
- 3.39 Dengys y map isod, fod gostyngiad yng nghanran y boblogaeth rhwng 20-34 mlwydd oed wedi digwydd rhwng 2001 a 2010 mewn rhannau helaeth o'r Ynys, yn enwedig, felly yn yr ardaloedd gwledig e.e. Bodffordd (-34.2%), Bryngwran (-28%), Mechell (-27.8%). Awgryma hyn, fod pobl yn y grŵp oedran hwn yn allfudo oherwydd prinder cyfleoedd economaidd a chymdeithasol yn yr ardaloedd hyn.



3.40 Yn nodweddiadol, gwelwyd gynnydd mawr yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed ar yr Ynys (+16.9% rhwng 2001 and 2010). Mae'n debyg fod cyfran uchel o'r boblogaeth hwn yn ddi-Gymraeg sy'n creu bygythiad pellach i fywiogrwydd yr iaith.

Cymraeg yn y Cartref

3.41 Mae iaith rhaint yn dylanwadu ar iaith y plant. Fel a welir yn y tabl isod, pan fydd dau riant yn siarad Cymraeg yn y cartref, mae 80% o blant 3-4 oed yng Ngwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran yn gostwng i 61% mewn cartrefi gyda rhiant sengl yn siarad Cymraeg yn gostwng ymhellach i 28% pan fo dim o ddau riant yn siarad Cymraeg.

	HOLL BLANT DROS 3 OED	PLANT SY'N SIARAD CYMRAEG (2011)							
		3 i 4		5 i 11		12 i 15		16 i 18	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Un teulu a dim eraill	10572	793	54	3640	80	2327	82	1327	75.6
Aelwydydd Cwpl	7969	631	56	2830	81	1753	84	977	77.9
Dim siaradwyr Cymraeg	1993	57	21	460	55	318	59	173	50.4
1 oedolyn yn siarad Cymraeg	2314	160	47.4	851	80	505	85	246	76
2 oedolyn yn siarad Cymraeg	3255	403	80	1436	95	781	97	414	95
arall	407	11	85	83	94	149	97	144	94.7
Aelwydydd un rhiant	2603	132	46	810	76	574	77	350	69.9
Dim oedolyn yn siarad Cymraeg	1038	31	25	236	57	155	55	101	46.8
1 oedolyn yn siarad Cymraeg	1394	96	61	541	89	359	89	223	78
Arall	171	5	71	33	87	60	94	57	91.9
Aelwydydd Eraill	812	64	57	252	72	173	74	80	67.2
dim oedolyn yn siarad Cymraeg	261	8	28	66	52	39	53	11	34.4
holl oedolion yn siarad Cymraeg	81	0	0	0	0	0	0	0	0
Arall	470	56	90	186	96	134	96	69	93.2

Gellir crynhoi'r negeseuon allweddol ar gyfer y ddau Awdurdod fel a ganlyn:

- Mae Gwynedd ac Ynys Môn yn gadarnleoedd yr iaith Gymraeg gyda'r gyfradd uchaf a'r ail uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.
- Mae gostyngiad o -5.2% wedi bod yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd a gostyngiad o -4.8% yn Ynys Môn rhwng 2001 a 2011.
- Mae rhai ardaloedd wedi gweld gostyngiad mwy dramatig nag eraill. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng Ngwynedd yn Garth (-33.4%) a Rhosneigr yn Ynys Môn (-13.4%)
- Mae lefel y siaradwyr Cymraeg yn amrywio rhwng cymunedau arfordirol sy'n boblogaidd fel canolfannau i ymddeol iddynt ble gwelir llawer o fewnfudo, a'r cymunedau eraill ble mae dros 70% y boblogaeth yn medru'r Gymraeg.
- Mae allfudo o Wynedd a Môn ar ei fwyaf yn y grwp oed 0-19 a 20-34 yn eu trefn.
- Yng Ngwynedd, ardal Bangor ac ardaloedd ar hyd arfordir Meirionnydd sydd fwyaf tebygol o weld mewnfudwyr di-Gymreig yn

symud yno i fyw, tra yn Ynys Môn gwelir mewnfudwyr di-Gymraeg ar eu mwyaf yn ardal Caergybi ac mewn rhannau helaeth o Ogledd Ddwyrain yr Ynys.

- **Cyfran uwch o blant yn siarad Cymraeg pan fydd dau riant mewn aelwyd yn siarad yr iaith.**

4. FFACTORAU SY’N DYLANWADU AR YR IAITH GYMRAEG

4.1 Er mwyn gwir ddeall sut y dylid asesu effaith y CDLI ar y Cyd ar yr iaith, yn gyntaf oll mae'n bwysig dadansoddi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr iaith Gymraeg. Mae llwyddiant a chynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn y dyfodol yn ddibynnol ar amryw o ffactorau sy'n cynnwys addysg, gweithgareddau cymunedol, newid demograffig a datblygiad economaidd cynaliadwy. Mae'r rhan hwn o'r papur yn ymchwilio fwy i'r ffactorau hyn ac yn amlinellu sut gall y CDLI ddylanwadu arnynt er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r iaith Gymraeg

Newid Demograffig

4.2 Mae newidiadau mewn poblogaethau o fewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg yn un o'r prif ffactorau sy'n tanseilio'r cymunedau hynny. Gall siaradwyr Cymraeg yn allfudo a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn mewnfudo gael effaith fawr ar y gyfradd o siaradwyr Cymraeg. Felly, mae'n bwysig bod y CDLI ar y Cyd yn ystyried effeithiau mewnfudo ac allfudo ar yr iaith Gymraeg a hwyluso datblygiadau sy'n annog pobl i aros yn eu cymunedau.

4.3 Yn y degawdau diweddar, y duedd ddemograffog mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith oedd bod pobl ifanc yn gadael a'r unig rai oedd yn debygol o gymryd eu lle oedd pobl hŷn, di-Gymraeg. Caiff y tueddiadau hyn effaith andwyol ar gydbwysedd cymdeithasol ac economaidd y gymuned ac mae goblygiadau cysylltiedig difrifol i'r iaith Gymraeg gan fod pobl ifanc yn mynd â dyfodol yr iaith yn yr ardaloedd hynny gyda hwy.

4.4 Mae'n debygol mai newid demograffig fydd prif ddylanwad dros gyfansoddiad ieithyddol-cymunedol ardal y Cynllun yn y blynyddoedd i ddod. Bydd yr allfudiad o siaradwyr Cymraeg ynghyd â'r mewnfudiad o bobl ddi-Gymraeg yn cael ardrawiad sylweddol ar y gyfran sydd yn siarad yr iaith. Fodd bynnag, prin yw'r dulliau sy'n gallu cyfyngu ar fewnfudo ac allfudo yn enwedig ym maes cynllunio defnydd tir.

4.5 Mae'n bwysig felly, fod y CDLI yn:

- Cyfrannu at sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol ac ieithyddol cymuned;
- Ystyried ardrawiadau mewnfudo ac allfudo ar yr iaith Gymraeg;
- Hyrwyddo datblygiad fydd yn annog pobl i aros yn eu cymunedau. Bydd hyn yn golygu hyrwyddo datblygiad economaidd cynaliadwy, a cheisio gwella cyfleoedd a gwasanaethau.

Datblygiad Economaidd

4.6 Mae cyflogwyr a gweithwyr yn cydnabod manteision economaidd yr iaith Gymraeg fwyfwy y dyddiau hyn. Ledled Cymru mae mwy a mwy o gyflogwyr – yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol – mewn ymateb i ddisgwyliadau cynyddol eu cwsmeriaid yn dod yn ymwybodol o fanteision defnyddio'r iaith er engrhaifft:

- Gwella ansawdd gwasanaethau cwsmeriaid
- Denu cwsmeriaid newydd

- Cynyddu ymlyniad cwsmeriaid
 - Hernesio ewyllus da am gost gymharol isel
 - Cael mantais farchnata dros gystadleuwyr
 - Gwella ymdrechion cysylltiadau cyhoeddus
- 4.7 Mae sail economaidd gynaliadwy a darparu cyfleoedd busnes a chyflogaeth yn hanfodol er mwyn creu cymunedau cynaliadwy. Mae economi lewyrchus yn annog pobl i aros yn eu cymunedau ac wrth wneud hynny, gyfrannu at gynnal yr iaith Gymraeg.
- 4.8 O ran datblygiad economaidd mae'n bwysig fod CDLI yn:
- Cynnwys mesurau cadarnhaol fydd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg;
 - Adanbod cyfleoedd i hwyluso'r ddarpariaeth o dir/gwagle cyflogaeth ar raddfa fach a mawr.
 - Hyrwyddo twf economaidd cydnaws ond ar yr un pryd, caniatu mesurau penodol i wrthweithio unrhyw effeithiau niweidiol posib a a ll ddeillio o rhai mathau o ddatblygiadau.

Addysg Ddwyeithog

- 4.9 Mae addysg ddwyeithog yn chwarae rôl bwysig o ran cynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Felly, bydd yn bwysig arwain datblygiadau tuag at ardaloedd ble mae darpariaeth ddigonol o gyfleusterau addysgiadol fydd yn medru cynnal twf yn y boblogaeth.
- 4.10 Fe fydd yn bwysig fod y CDLI yn:
- Sicrhau fod datblygwyr yn cyfrannu at gyfleusterau addysg mewn amgylchiadau priodol gan gall y ddarpariaeth o dai newydd roi pwysau annerbyniol a gormodol ar allu ysgolion i weithredu'n effeithiol oherwydd y plant ychwanegol fydd yn rhaid eu cynnal;
 - Sicrhau fod datblygiadau yn cael eu tywys i'r ardaloedd hynny ble mae darpariaeth ddigonol o gyfleusterau addysgol fydd yn gallu cynnal cynnydd yn y boblogaeth. Fel hyn, bydd plant ysgol sy'n mewnffudo if yw mewn unrhyw ardal yn derbyn addysg Gymraeg. Yn ei dro, o bosib, fe fydd rhieni'r plant hyn yn ymdrechu i ddysgu'r iaith eu hunain.

Darpariaeth Tai

- 4.11 Gwyddys bod datblygiadau tai ar raddfa fawr nad ydynt yn cyd-fynd o gwbl â maint ac anghenion y gymuned yn cael effaith andwyol ar gymeriad ieithyddol a diwylliannol ardaloedd. Mae mewnlifiad cyfradd fawr o drigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg i ardal yn debygol o danseilio'r cymunedau llai hynny sy'n siarad Cymraeg ac mae hyn yn gwneud cymhathu yn anodd.
- 4.12 Un o'r rhesymau sy'n egluro pam fod pobl ifanc yn mudo o gymunedau sy'n siarad Cymraeg yw'r diffyg tai marchnad agored a thai fforddiadwy yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Fe gynyddodd prisiau tai yn fawr iawn hyd at 2007 ac o ganlyniad, roedd yn anodd i bobl leol (yn enwedig prynwyr cyntaf) gystadlu nny farchnad dai. Er fod prisiau tai wedi disgyn yn ystod y dirwasgiad, mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn ffactor bwysig.

- 4.13 Yn ogystal, gall ail gartrefi / cartrefi gwyliau effeithio ar gymeriad a gwead cymdeithasol ardal neu bentref. Fel arfer, ni fydd pwerchnogion y tai hyn yn siarad Cymraeg, ac felly bydd hyn yn amharu'n niweidiol ar fuddiannau'r iaith. Yn ychwanegol i hyn, mae'r tai yma'n cael eu colli o'r stoc dai sydd ar gael i bobl fyw'n barhaol ynddynt ac mae tueddiad i brisiau godi gan gyfyngu felly ar y dewis o dai i bobl leol Cymraeg eu hiaith.
- 4.14 Ffactor bwysig o ran diogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith, felly, yw cynorthwyo pobl i fyw a phrynu a rhentu tai yn lleol. Bydd sicrhau fod y cymysgedd cywir o dai ar gyfer angen y cymunedau lleol yn cael eu datblygu yn bwysig o ran cynnal yr iaith Gymraeg.
- 4.15 Mewn cymunedau gwledig llai yn enwedig, efallai y bydd angen cyflogaeth a thai ychwanegol o'r math a'r raddfa gywir i fodloni anghenion lleol er mwyn cynnal cymunedau presennol. Dylai'r twf tebygol fod yn gymesurol i anghenion cymdeithasol-economaidd y gymuned a'i gapasiti tebygol i newid dros amser heb niweidio'r iaith. Felly, dylai'r CDLI ar y Cyd:
- Nodi cyfleoedd pellach i ddynodi tai fforddiadwy yn yr ardaloedd hynny ble mae angen amdanynt;
 - Sicrhau fod graddfa dynodiadau tai marchnad agored yn briodol i'r ardal leol;
 - Hyrwyddo datblygiadau cam wrth gam ('phased'). Dywed Llywodraeth y Cynulliad y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddarparu ar gyfer cyflwyno datblygiadau tai'n raddol a'u dosbarthu'n eang er mwyn gwneud yn siŵr fod gwahanol ardaloedd a chymunedau yn gallu ymdopi â datblygiad heb erydu sefyllfa'r iaith;
 - Cynnwys mesurau fydd yn cyfyngu ar y nifer o ail gartrefi yn ardal y cynllun;
 - Cynnwys mesurau i reoli meddianiaeth tai newydd mewn ardaloedd penodol e.e. lle mae yna gyflenwad gormodol o dai haf/gwyliau'n barod.

Gweithgareddau Cymunedol

- 4.16 Un modd pwysig o greu cymunedau cynaladwy yw sicrhau bod amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol yn cael eu cynnal, yn arbennig felly mewn ardaloedd gwledig. Mae adeiladau cymunedol fel neuaddau pentref a chapeli sy'n cynnal gweithgareddau amrwyiol, yn chwarae rôl annatod o greu cymunedau cynaladwy. Drwy gynnal gweithgareddau mae adeiladau o'r fath yn dod â cymunedau at ei gilydd, sydd yn ei dro yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae gan y system gynllunio swyddogaeth bwysig i'w chyflawni o ran gwarchod cyfleusterau presennol a hyrwyddo'r ddarpariaeth o rai newydd.

Fe fydd yn bwysig fod y CDLI yn:

- Gwarchod a chynnal adeiladau lle cynhelir gweithgareddau cymunedol;
- Ystyried mesurau i wrthweithio unrhyw effeithiau niweidiol posib iddynt.